@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

**Cymdeithas Rieni ac Athrawon**
Tybed a oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno gyda chriw brwdfrydig y G.Rh.A i godi arian allweddol ar gyfer gwella adnoddau yr Ysgol Gymraeg? Medrwch gyfrannu'n fach neu fawr – beth bynnag yw'ch argaeledd - cwblhewch yr holiadur byr hwn (dim hwy na munud) i rannu'ch gwybodaeth gyda ni os gwelwch yn dda: https://forms.office.com/e/u2cHY3uAdd

**Gŵyl Chwaraeon – Blynyddoedd 5 a 6**
Bydd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn mynychu Gŵyl Chwaraeon sydd wedi ei threfnu gan Ceredigion Actif brynhawn dydd Llun y 23ain o Hydref. Bydd y plant yn cerdded i fyny i'r Brifysgol ar ôl cinio, ac yn dychwelyd i'r ysgol erbyn 3:30yp. Anogwn i'r plant fynychu'r ysgol mewn dillad addas ddydd Llun, gan gynnwys treinyrs a chot law rhag ofn.

**Côr Nadolig Ceredigion – Blwyddyn 6**
Bydd pob disgybl Blwyddyn 6 wedi derbyn llythyr ar bapur gan yr ysgol yn eu gwahodd i fod yn aelod o Gôr Nadolig Ceredigion. Os hoffech i'ch plentyn gymryd rhan yna dychwelwch y llythyr erbyn dydd Llun y 23ain o Hydref os gwelwch yn dda.

**Newyddion Ni**
Diolch yn fawr i bawb am eich hymdrechion ar gyfer ein Diwrnod Rhyngwladol eleni. Gwelwyd gwisgoedd hyfryd ar draws yr ysgol, yn ogystal â bwyd blasus, dawnsio arbennig a rhieni a chyfeillion yr ysgol yn rhannu eu gwybodaeth am wahanol wledydd ac ieithoedd gyda'r plant. Gwych iawn! Diolch hefyd i gyn-ddisgybl yr ysgol, Anest Eirug, sydd bellach yn ohebydd gyda'r BBC am ddod i ffilmio eitem ar gyfer Newyddion Ni. Dyma gyfle i chi weld yr eitem drwy glicio ar y ddolen isod:
Clic | Newyddion Ni | 18 Hydref 2023 (s4c.cymru)

**Adborth Asesiadau Personol – Blynyddoedd 2 - 6**
Yn nhymor yr haf cynhaliwyd asesiadau personol yn yr ysgol ar gyfer llythrennedd a rhifedd i flynyddoedd 2-6. Cynhelir yr asesiadau yma arlein, ac erbyn hyn mae'r adborth yn barod ar eich cyfer trwy fynd i wefan Hwb a mewngofnodi yn defnyddio manylion eich plentyn, yna mynd i'r adran Asesiadau Personol (does dim canlyniadau yno ar gyfer y blwyddyn 2 cyfredol wrth gwrs gan mai ym ml.1 oeddynt yn yr haf) Yno mi welwch ganlyniadau ac adborth y gwahanol asesiadau. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth yma, ynghyd ag asesiad athro, er mwyn cefnogi'ch plentyn yn yr ysgol. Cliciwch ar y ddolen hon i ddarllen mwy o wybodaeth :
Information_for_parents_final_billingual.pdf (windows.net)

**Y Gymraeg**
Dyma dynnu eich sylw at adnodd arlein Llywodraeth Cymru Cymraeg i blant | LLYW.CYMRU
Mae'n cynnwys cefnogaeth ar gyfer byw bywyd dwyieithog yma yng Ngheredigion, yn ogystal â dolenni i ganeuon ac ati ar gyfer plant bach.

CYMRAEG I Blant For Kids

**Dogfennau**

PDF **Llyfr caneuon Cymraeg i Blant**
3 MB

**Gweithgareddau hanner tymor – rhannu gwybodaeth am Wyddoniaeth a'r Urdd**







## Ffair Nadolig y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Cynhelir y Ffair Nadolig eleni ar nos Iau y 30ain o Dachwedd, 2023 yn yr ysgol. Os oes gennych ddiddordeb mewn dod â stondin cysylltwch gyda swyddogion C.Rh.A drwy crha.ysgol.gymraeg@gmail.com

## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Ffair Nadolig y G.Rh.A : Tachwedd 30ain yn Neuadd yr ysgol.
Cyngerdd Nadolig : Rhagfyr 13eg yn y Neuadd Fawr;
Cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig ar ddydd Iau yr 21ain o Ragfyr am 3:30yp.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro**
**20/10/2023**
www.ysgolgymraeg.cymru

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

***Parents and Teachers Association***

*Are you interested in joining the enthusiastic crew of the P.T.A to raise key funds for improving the resources of Ysgol Gymraeg? You can contribute a little or a lot - whatever your availability - please complete this short questionnaire (no longer than a minute) to share your information with us: https://forms.office.com/e/9THvVJbUsK*

***Sports Festival – Years 5 and 6***

*Pupils in years 5 and 6 will attend a Sports Festival which has been organized by Ceredigion Actif on the afternoon of Monday the 23rd of October. The children will walk up to the University after lunch, and return to school by 3:30pm. We encourage the children to attend school in suitable clothing on Monday, including trainers and a raincoat just in case.*

***Ceredigion Christmas Choir – Year 6***

*All Year 6 pupils will have received a letter on paper from the school inviting them to be a member of the Ceredigion Christmas Choir. If you would like your child to take part then please return the letter by Monday the 23rd of October.*

***Newyddion Ni (Our News)***

*Many thanks to everyone for your efforts for our International Day this year. Beautiful costumes were seen across the school, as well as delicious food, special dancing and parents and friends of the school sharing their knowledge of different countries and languages with the children. very good! Thanks also to a former pupil of the school, Anest Eirug, who is now a reporter with the BBC for coming to film an item for Newyddion Ni. Here is an opportunity for you to view the item by clicking on the link below:*

Clic | Newyddion Ni | 18 Hydref 2023 (s4c.cymru)

***Personal Assessments Feedback– Years 2 - 6***

*In the summer term personal assessments were carried out at the school for literacy and numeracy for years 2-6. These assessments are carried out online, and now the feedback is ready for you by going to the Hwb website and logging in using your child's details, then going to the Personal Assessments section (there are no results there for the current year 2 of course as they were in year 1 in the summer) There you will see the results and feedback of the different assessments. We use this information, together with the teacher's assessment in order to support your child at school. Click on this link to read more information:*

Information_for_parents_final_billingual.pdf (windows.net)

***The Welsh language***

*This is to draw your attention to the Welsh Government's online resource* Welsh for children | Llywodraeth Cymru
*It includes support for living a bilingual life here in Ceredigion, as well as links to songs etc. for young children.*

CYMRAEG I Blant For Kids

**Dogfennau**

Llyfr caneuon Cymraeg i Blant
3 MB

*Half term Activities – Science and Yr Urdd*







***Parent and Teacher Association Christmas Fair***
*The Christmas Fair will be held this year at the school on Thursday night the 30th of November, 2023. If you are interested in bringing a stall please contact the PTA officials via crha.ysgol.gymraeg@gmail.com*

***Half Term Calendar***
*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

***Important dates for next half term***
*PTA Christmas Fair: November 30th in the School Hall*
*Christmas Concert: December 13th in the Great Hall;*
*Closing for the Christmas holidays on Thursday 21st December at 3:30pm.*

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Acting Headteacher***
***20/10/2023***
www.ysgolgymraeg.cymru